Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**ADRAN GWEITHREDIADAU**

**CYNORTHWYYDD GWEINYDDOL (HYFFORDDI)**

**SWYDD RHIF: NU006**
**GRADD 6**

**18.5 awr yr wythnos**
**Cyflog: £18,453 - £19,621 Pro rata**
**(Bydd pob swydd yn amodol ar werthusiad swydd)**

Cododd y swydd wag uchod o fewn yr Adran Hyfforddi Staffio Canolog o'r Gyfarwyddiaeth Weithredol ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am enwebu personél a leolir yn yr Orsaf a gweinyddu darpariaeth hyfforddiant i'r Adran Gweithrediadau. Bydd y rôl yn cynnwys cyd-lynu pob gweithgaredd hyfforddi a chysylltu â'r Adran Hyfforddi a Datblygu. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd goladu a storio data'n briodol, cynnal systemau gwybodaeth a darparu adroddiadau data dadansoddol.

Lleolir y swydd hon yn ein Pencadlys yn Llantrisant ac mae ar gyfer **18.5 awr yr wythnos Diwrnod llawn Dydd Llun, prynhawn Dydd Mercher a Diwrnod llawn Dydd Iau.**

Rhaid i ymgeiswyr feddu ar brofiad blaenorol o weithio mewn rôl weinyddol, gan gynnwys profiad profedig o ddefnyddio cymwysiadau Microsoft Office.

Mae dull hyblyg yn ogystal â sgiliau sefydliadol rhagorol a chynnig sylw i fanwl gywirdeb yn bwysig i'r rôl hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r meini prawf o fewn y Manyleb Person.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 8fed o Medi, 2020 am 12:00 Hanner dydd.**

Gellir lawr lwytho pecyn cais gan gynnwys y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad o Adran Swyddi Cyfredol Gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: www.decymru-tan.gov.uk
**Dyfynnwch Rif Cyfeirnod y swydd wag hon os gwelwch yn dda.**

Dylid dychwelyd ffurflenni cais gorffenedig drwy law e-bost i:
personél@decymru-tan.gov.uk

**Mae GTADC yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

disability confident COMMITTED